



Prosesau arfordirol a thwyni tywod

Term	Diffiniad
Addasiad	y broses o newid lle mae organeb neu rywogaeth yn dod yn fwy addas i'w amgylchedd.
Bylchu	pan mae ceryntau cryf yn creu agoriad yng nghrib y twyni. Gall bylchau amrywio o ran lled. Yn aml, mae bylchau llai'n llenwi â thywod yn y misoedd ar ôl storm. Gall bylchau mwy ddod yn fannau lle mae dŵr yn llifo i mewn yn barhaol, sy'n arwain at lifogydd yn yr ardaloedd y tu ôl i'r twyni.
Croniant	y broses lle mae tywod neu waddod yn casglu oherwydd tonnau, llanw, a gwyntoedd.
Cylch rhewi/dadmer	proses o erydu sy'n digwydd mewn ardaloedd oer lle mae iâ'n ffurfio. Gall hollt mewn craig lenwi â dŵr sydd wedyn yn rhewi wrth i'r tymheredd ostwng. Wrth i'r iâ ehangu, mae'n gwthio'r hollt ar wahân, gan ei wneud yn fwy. Pan fydd y tymheredd yn codi eto, mae'r iâ'n toddi, ac mae'r dŵr yn llenwi rhannau mwy newydd yr hollt. Mae'r dŵr yn rhewi eto wrth i'r tymheredd ddisgyn, ac mae ehangiad yr iâ yn achosi i'r hollt ehangu ymhellach. Mae'r broses hon yn parhau hyd nes y bydd y graig yn torri.
Cymuned uchafbwynt	cymuned ecolegol lle mae poblogaethau o blanhigion neu anifeiliaid yn aros yn sefydlog ac yn bodoli mewn cydbwysedd â'i gilydd a'u hamgylchedd. Cymuned uchafbwynt yw cam olaf olyniaeth, gan aros yn gymharol ddigyfnewid nes iddi gael ei dinistrio gan ddigwyddiad fel tân neu ymyrraeth ddynol.
Dadchwythiad	proses sy'n digwydd pan fydd gwynt yn chwythu gronynnau solid ymaith gan achosi i ardaloedd o dywod rhydd ddod i'r amlwg oherwydd bod diffyg llystyfiant yn dal yr wyneb at ei gilydd.
Drifft y glannau	y broses lle mae defnyddiau'n cael eu hadleoli ar hyd y lan drwy symudiad tonnau, llanw, a'r gwynt. Mae tonnau'n mynd at y lan gan gario gwaddod y traeth gyda nhw, ond ar ôl dychwelyd i'r môr, mae symudiad tonnau bob amser yn berpendicwlar i'r lan (i ffwrdd ohono). Mae hyn yn golygu bod gwaddod yn symud yn raddol i'r lan ac ar ei hyd.
Dyddodiad	yw pan mae'r gwaddod a gludir gan y gwynt, dŵr, neu iâ yn cael ei ollwng.
Erydiad	y broses ddaeaeregol lle mae defnyddiau'r ddaear yn cael eu treulio a'u cludo gan rymoedd naturiol fel gwynt neu ddŵr.
Gorlifo	pan mae dŵr yn llifo dros frig strwythur, nodwedd naturiol, neu adeilad ar y draethlin.
Haloffyt	planhigyn sy'n tyfu mewn dyfroedd â halwynedd uchel, gan ddod i gysylltiad â dŵr halwynog drwy ei wreiddiau neu drwy ewyn halen.
Llecyn cyfoethog o ran bioamrywiaeth	ardal sydd â chyfoeth o fioamrywiaeth ond sydd dan fygythiad.
Llifogydd drwy'r twyni	gall ddigwydd yn ystod stormydd pan fydd llanw a thonnau uchel yn erydu traethau a thwyni. Gall y tywod a'r dŵr sy'n cael eu cario gan donnau dorri drwy'r twyni a gorlifo ar ochr fewndirol y twyni.
Llystyfiant uchafbwyntiol	bydd y llystyfiant a geir yng ngham olaf olyniaeth fiotig mewn ardal sydd ag amodau amgylcheddol penodol, fel arfer prysgwydd tal a hyd yn oed coetir yn y DU, yn ymsefydlu fel y llystyfiant uchafbwyntiol.
Sgrafelliad	y broses o wisgo neu dreulio rhywbeth.



Term	Diffiniad
Lefel trwythiad dŵr clo	mae'n digwydd pan fydd lensys o ddefnydd anathraidd mewn craig sydd fel arall yn athraidd. Mae'r rhain yn caniatáu i lefelau trwythiad bach, cyfyngedig ddatblygu dros y lensys, sy'n gallu bod uwchben y lefel trwythiad ranbarthol yn y graig amgylchynol.
Planhigion arloesol	dyma'r rhywogaethau cyntaf sy'n tyfu mewn ardal a dyma gam cyntaf olyniaeth. Maent fel arfer yn blanhigion gwydn sy'n gallu gwrthsefyll amgylchedd anodd.
Prifwynt	gwyntoedd sy'n chwythu'n gyson i gyfeiriad penodol dros ranbarth penodol ar y Ddaear.
Olyniaeth gynradd	y broses o olyniaeth ecolegol sy'n digwydd mewn ardaloedd lle nad oes pridd ac organebau byw - rhywogaethau arloesol yw'r planhigion sy'n ymsefydlu.
Samoser	mae'n gymuned seral - olyniaeth ecolegol a ddechreuodd ei bywyd ar dywod arfordirol sydd newydd ddod i'r amlwg. Systemau twyni tywod yw'r rhan fwyaf o samoserau cyffredin.
Neidiant	pan fydd y gwynt yn taro'r ddaear mae'n achosi tyrfedd, sy'n tarfu ar ronynnau tywod. Os yw'r gwynt yn ddigon cyflym, bydd yn achosi i'r gronynnau symud. Wrth i'r tywod symud mae'n taro gronynnau eraill, sy'n achosi iddynt fownsio yn yr awyr. Yna mae'r gwynt yn codi'r gronynnau hyn sydd yn yr awyr ac yn eu cario. Bydd grym disgyrchiant yn peri iddynt ddisgyn yn ôl i'r ddaear. Os yw'r tywod yn glanio ar arwyneb caled (e.e. craig), bydd y gronynnau tywod yn bownsio eto ac yn cael eu cario ymhellach. Os yw'r gronynnau'n glanio ar arwyneb tywodlyd, bydd yn achosi i ronynnau eraill gael eu tarfu, bownsio a byddant hwythau'n cael eu cario, gan achosi adwaith cadwynol. Dyma'r ffordd fwyaf cyffredin y mae tywod yn cael ei symud gan y gwynt.
Clogwyni twyni tywod	clogwyni tywod serth. Gyda thunelli o dywod wedi'u torri ymaith, mae clogwyni twyni yn ansefydlog a gallant gwympto. Dros amser, bydd clogwyni twyni yn erydu i fod yn llethrau mwy graddol.
Hydoddiant	mae mwynau'n cael eu toddi yn y dŵr a'u cario mewn hydoddiant. Mae hyn fel arfer yn digwydd mewn ardaloedd lle mai calchfaen yw'r graig waelodol.
Safon yr amddiffyniad	mae hyn yn darparu lefel ddangosol o risg i ardal benodol mewn perthynas â llifogydd o'r môr neu afon.
Traethlin	marc a adewir gan lanw uchel sy'n dangos ymchwydd mwyaf y dŵr. Fel arfer mae'n hawdd ei adnabod gan fod gwymon a malurion eraill yn cael eu dyddodi mewn llinell ar hyd y traeth.
Ymgripiad arwynebol	mae gronynnau tywod mwy o faint yn rhy drwm i'r gwynt eu codi a'u cario, felly yn lle hynny, maen nhw'n symud ar hyd y ddaear, gan wrthdaro â gronynnau eraill. Unwaith y mae tywod yn dechrau symud drwy'r broses hon, mae'n datblygu momentwm ac yn dal i fynd tan iddo wrthdaro â gwrthrych. Drwy'r broses hon, nid yn unig y mae gronynnau tywod yn cael eu symud ond drwy symud yn erbyn gronynnau eraill, maen nhw'n erydu'n ronynnau llai sy'n gallu cael eu codi gan broses neidiant neu ddaliant. Bydd gwyntoedd sy'n ddigon cyflym yn symud gronynnau tywod llai o'r traeth ac yn eu cludo i mewn i'r tir. Bydd gronynnau o faint canolig yn cael eu gollwng ar ben uchaf y traeth, ac mae gronynnau mwy'n aros lle maen nhw ar y blaendraeth.



Term	Diffiniad
Daliant	dyma'r broses lle mae gronynnau tywod mân yn cael eu symud gan y gwynt, yn uchel yn yr awyr. Nid yw disgyrchiant yn effeithio arnynt ac felly gallant deithio cannoedd o filltiroedd cyn iddynt lanio ar y tir eto. Pan fyddant yn glanio, mae'n aml oherwydd eu bod wedi cyfuno â diferion glaw ac wedi cwmpo mewn glaw.
Rholiant	lle mae cerrig mân a defnyddiau mwy'n cael eu rholio ar hyd gwely'r môr.
Trawsgludiad	Symudiad gwaddod drwy: hydoddiant daliant neidiant rholiant
Lefel trwythiad	y lefel o dan wyneb y ddaear lle mae dŵr i'w gael.
Prosesau hindreulio	lle mae creigiau a mwynau'n dadelfennu neu hydoddi ar wyneb y Ddaear. Mae dŵr, iâ, asidau, halwynau, planhigion, anifeiliaid, a newidiadau o ran tymheredd i gyd yn gyfryngau hindreulio.

Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000